Hafod Primary School

Ysgol Gynradd Hafod

**DISGRIFIAD SWYDD - STAFF SAFLE’R YSGOL (GOFALWR)**

**LEFEL 2**
**O dan gyfarwyddyd / arweiniad uwch staff priodol: darparu gwaith cynnal a chadw a gwasanaethau diogelwch ar safleoedd ac mewn adeiladau ysgolion**

**GRADD STATWS SENGL: Gradd 4 (Scp 5-6)**

**TASGAU – CYNNAL A CHADW**

**Sicrwydd**

- Cloi/datgloi adeiladau ac ardaloedd yn yr ysgol
- Gwneud gwiriadau diogelwch rheolaidd a nodi risgiau diogelwch
- Monitro offer diogelwch tân a chynnal driliau tân
- Gweithredu ac ymateb i systemau larwm lle bo hynny'n briodol, y tu allan i unrhyw friff monitro arbenigol
- Monitro teledu cylch cyfyng neu offer gwyliadwriaeth lle bo hynny'n briodol
- Cysylltu â’r heddlu a chontractwyr diogelwch a gwyliadwriaeth
- Ymgymryd â’r drefn o osod a chyflawni tasgau clerigol cysylltiedig
- Darparu mynediad brys i safle'r ysgol

**Cynnal a Chadw**

- Gwneud atgyweiriadau priodol e.e. ailaddurno a thrwsio
- Ymgymryd ag atgyweiriadau bychain/syml e.e. mân blymio, newid bylbiau golau, dadflocio draeniau
- Trefnu a chyflawni dyletswyddau cynnal a chadw amrywiol i sicrhau bod safon gyffredinol yr adeilad a’r gwaith cynnal a chadw yn foddhaol, yn unol ag amserlen benodol ar gyfer eich ysgol.
- Trefnu a chynnal rhaglen o fân addurno fel y cytunwyd gyda'r pennaeth
- Trefnu a gwneud gwaith i wella’r adeilad fan hyn a fan draw e.e. codi silffoedd, hysbysfyrddau, silffoedd llyfrau ac ati fel y cytunwyd gyda'r pennaeth
- Bod yn gyfrifol am weithredu rhaglen gynnal a chadw ataliol sydd wedi'i chynllunio a bod yn gyfrifol am archwiliadau rheolaidd o'r adeiladau, gosodiadau, ffitiadau, dodrefn, safleoedd a thiroedd i asesu ar gyfer mân waith neu atgyweiriadau y mae'n ofynnol eu gwneud i gynnal amodau diogel a boddhaol
- Gweithredu a chynnal a chadw systemau gwresogi a goleuo
- Goruchwylio a monitro profion trydanol ar offer trydanol cludadwy a chadw’r cofnodion priodol
- Cynnal archwiliadau rheolaidd o'r safle a nodi a chofnodi gofynion atgyweirio a chynnal a chadw
- Nodi diffygion a chofnodi gofynion atgyweirio a chynnal a chadw
- Casglu a threfnu gwastraff i'w gludo ymaith
- Ymgymryd â thasgau glanhau mewn argyfwng a rhai arbenigol
- Ymgymryd â dyletswyddau glanhau fel tynnu graffiti, casglu sbwriel
- Darparu mynediad brys i safle'r ysgol
- Cydlynu danfoniadau i safle'r ysgol
- Monitro perfformiad contractau a chofnodi perfformiad yn erbyn safonau penodedig
- Cysylltu â chontractwyr ac ymgymryd â rôl cleient mewn cysylltiad â chontractau sy'n gysylltiedig ag eiddo
- Cydlynu gwaith staff glanhau
- Sicrhau bod lefelau boddhaol o ofal, glendid a hylendid yn cael eu cyflawni a'u cynnal drwy'r holl safle
- Sicrhau bod llwybrau a phob ardal allanol arall sydd ag arwyneb caled yn cael eu cadw'n lân, yn rhydd o sbwriel a chwyn a'u bod yn cael eu graeanu neu eu halenu pan fo angen yn ystod amodau gaeafol.
- Cynnal offer chwaraeon arbenigol eraill ar ôl hyfforddiant arbenigol

| GWEITHGAREDDAU ALLWEDDOL – ADNODDAU |
|---|
| • Cynghori'r pennaeth ar faterion yn ymwneud â rheoli ynni a chadwraeth ynni<br>• Cyfrannu at gynllunio, datblygu a threfnu systemau/ gweithdrefnau/ polisïau<br>• Bod yn gyfrifol am gynnal cofnodion, gwybodaeth a data, gan gynhyrchu dadansoddiadau ac adroddiadau yn ôl yr angen.<br>• Creu a chynnal amgylchedd gwaith pwrpasol, trefnus a chynhyrchiol<br>• Sicrhau cynllunio, paratoi a defnyddio cyfarpar/ adnoddau/ deunyddiau arbenigol amserol a chywir.<br>• Cynorthwyo gydag archwiliadau diogelwch o'r safle a chyfrannu at weithgarwch asesu risg perthnasol<br>• Hyrwyddo a sicrhau iechyd a diogelwch disgyblion, staff ac ymwelwyr (yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch briodol) bob amser. |

| GWEITHGAREDDAU ALLWEDDOL – TREFNU A GORUCHWYLIO |
|---|
| • Dangos a chynorthwyo eraill i ddefnyddio offer/ deunyddiau arbenigol yn ddiogel ac yn effeithiol<br>• Cynnig cyngor ac arweiniad arbenigol yn ôl yr angen.<br>• Dyletswyddau porthor e.e. danfon post, symud dodrefn ac offer.<br>• Cynorthwyo gyda rheoli, gweinyddu a gweithredu system osod.<br>• Monitro a rheoli stoc o fewn cyllideb y cytunwyd arni, catalogio adnoddau a chynnal archwiliadau yn ôl yr angen.<br>• Cyfarwyddo/goruchwylio staff glanhau a/neu staff y safle a sicrhau bod gwaith glanhau yn cyd-fynd â'r fanyleb<br>• Lle bo'n briodol, trefnu a gweinyddu’r defnydd o bob cerbyd ysgol a’r gwaith cynnal a chadw arnynt a chyflawni dyletswyddau gyrru pan fo’r pennaeth yn gofyn am hynny.<br>• Cysylltu â chontractwyr y gwasanaeth prydau ysgol mewn perthynas â'u defnydd o'r safle a’u darpariaeth o’r gwasanaeth, lle bo hynny'n briodol<br>• Cysylltu â’r rheolwr llinell a mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen |

| CYFRIFOLDEBAU: |
|---|
| • Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch bob amser<br>• Hyrwyddo a sicrhau iechyd a diogelwch pob disgybl (staff ac ymwelwyr)* bob amser.<br>• Bod yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, iechyd, diogelwch a diogeledd, a chyfrinachedd a chydymffurfio â hwy, gan adrodd am bob pryder i berson priodol<br>• Cyfrannu at ethos/gwaith/amcanion cyffredinol yr ysgol<br>• Gwerthfawrogi a chefnogi rôl gweithwyr proffesiynol eraill<br>• Mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd perthnasol yn ôl y gofyn<br>• Cymryd rhan mewn hyfforddiant a gweithgareddau dysgu a datblygiad personol eraill yn ôl y gofyn<br>• Sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch bob amser<br>• Bod yn gwrtais ac yn ystyrlon wrth ymdrin â phawb sy’n defnyddio’r ysgol<br>• Cyflwyno delwedd bersonol gadarnhaol, gan gyfrannu at amgylchedd croesawgar yr ysgol sy’n cefnogi cyfle cyfartal i bawb. |

| | |
|---|---|
| Profiad | • Profiad perthnasol yn fanteisiol<br>• Profiad fel crefftwr<br>• Profiad gofalu/cadw safle mewn ysgol neu amgylchedd tebyg |
| Cymwysterau/<br>Hyfforddiant | • Parodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant cychwynnol<br>• Cymhwyster NVQ 2 **NEU** gymhwyster cyfwerth yn fanteisiol<br>• Sgiliau rhifedd a llythrennedd da/TGAU (neu gyfwerth) Mathemateg a Saesneg .<br>• Hyfforddiant penodol mewn maes arbenigol |

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth/Sgiliau | • Parodrwydd i ddatblygu gwybodaeth am sut i ddefnyddio TGCh ac offer/adnoddau arbenigol eraill.<br>• Gwybodaeth ymarferol o bolisïau/codau ymarfer/deddfwriaeth berthnasol.<br>• Hunangymhelliant<br>• Y gallu i ymwneud â phlant ac oedolion yn dda.<br>• Gwybodaeth am weithdrefnau a rhagofalon Iechyd a Diogelwch<br>• Gwybodaeth am reoliadau COSHH<br>• Ymwybyddiaeth o weithdrefnau iechyd a hylendid<br>• Gwybodaeth am weithdrefnau symud a thrin<br>• Parodrwydd i gymryd rhan mewn cyfleoedd datblygu a hyfforddiant.<br>• Sgiliau arwain tîm |